Cofnodion cyfarfod hybrid y **CYNGOR** a gynhaliwyd nos Fercher, 18 Mawrth 2026, am 6pm.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd A. Walker (Maer)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs M. A. Blakeley-Walker, Mrs E. M. Chard,
Mrs J. M. Evans, S. Feeney, A. R. James, J. Kenney, Mrs D. L. King,
B. Mellor, W. Price, Ms R. S. Roberts, Ms V. Roberts,
a Miss C. L. Williams

Mrs H. J. Mead – Clerc y Dref
Mr A. O. Williams – Swyddog Cyllid
Mrs T. A. Jones – Dirprwy Glerc y Dref

**155. DECHRAU'R CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU**

Cyfeiriodd y Maer at farwolaeth y Cynghorydd Mrs Jeanette Chamberlain-Jones, cyn Faer a gynrychiolodd ward Derwen ar y Cyngor Tref am bron i 22 o flynyddoedd.

Cafwyd munud o dawelwch yn y cyfarfod.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mrs J Butterfield YH MBE, Mrs S. L. Connolly, K. R. Jones, Ms J. L. McAlpine, A. J. Rutherford a D. Simmons.

**156. DATGAN BUDDIANNAU**

Gofynnodd y Maer a oedd gan yr aelodau unrhyw fuddiant personol neu fuddiant personol ac sy'n rhagfarnu i'w datgan yng nghyswllt unrhyw eitem o fusnes i'w ystyried ar yr agenda.

Datganodd y Cynghorydd Mrs D. L. King fuddiant personol yn eitem agenda rhif 11 (Cyfethol Cynghorydd Cymuned – Ward Cefndy) fel un o'r Cynghorwyr Sir sy'n cynrychioli'r ward.

Datganodd y Cynghorydd A. R. James fuddiant personol yn eitem agenda rhif 11 (Cyfethol Cynghorydd Cymuned – Ward Cefndy) gan fod un ymgeisydd yn gyn-gydweithiwr iddo.

**157. COFNODION**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfarfod y Cyngor | - | 18 Chwefror 2026 | - | Cofnodion rhifau 141 - 154 |

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. Walker ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Y Pwyllgor Cynllunio | - | 18 Chwefror 2026 | - | Cofnodion rhifau 33 - 37 |

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. Walker ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs V. Roberts a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

**158.** **ADRODDIAD Y MAER**

Cyfeiriodd y Maer at yr adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn cynghori bod gorymdaith a gwasanaeth eglwys Dydd Gŵyl Dewis Cyngor Tref Bae Colwyn wedi denu cynulleidfa dda yn cynnwys pedair ysgol leol yn cymryd rhan, ac roedd yn ddigwyddiad pleserus iawn.

**159.** **ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU – MIS MAI 2025 (ATODLEN A)**

Cyfeiriodd y Maer at adroddiad Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn nodi'r taliadau a wnaed a'r incwm a dderbyniwyd.

| Taleb rhif: | Enw'r cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad y gwasanaethau a ddarparwyd |
|---|---|---:|---|
| 2164 | BT | 87.06 | Gwasanaeth rhentu systemau ffonau - Neuadd y Dref |
| 2165 | BT | 378.00 | Gwasanaeth band eang Neuadd y Dref |
| Amherthnasol | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| 2166 | O2 | 52.20 | Llogi ffôn symudol |
| Amherthnasol | Tesco | 9.00 | Llogi ffôn symudol |
| 2170 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 9,059.37 | Tâl net i bedwar aelod o staff – mis Chwefror 2026 |
| 2168 | Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi | 3,455.94 | Talu wrth Ennill – mis Ionawr 2026 |
| 2169 | Cronfa Bensiwn Clwyd | 3,280.52 | Cyfraniadau pensiwn – mis Ionawr 2026 |
| 2034 | Siop Cyngor am Fudd-daliadau | 1,255.83 | Swyddog Apeliadau Budd-daliadau – taliad 11 o 12 yn 2025/26 |
| Amherthnasol | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| | **Cyfanswm y taliadau** | **17,583.92** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm £ |
|---|---|---:|
| Santander | Llog ar y cyfrif hysbysiad 31 diwrnod | 187.70 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif adneuo 1 mis | 867.95 |
| | **Cyfanswm yr incwm** | **1,055.65** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

**160.** **AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)**

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyfeiriodd y Maer at Atodlen B a gyflwynwyd gan Glerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (rhestr o daliadau rheolaidd i'w rhyddhau yn ystod y mis nesaf) (a ddosbarthwyd gyda'r agenda).

| Taleb | Cyflenwr | Manylion y cyflenwad | Swm £ |
|---|---|---|---:|
| 2193 | Cyngor Sir Ddinbych | Contract cynnal a chadw tiroedd 2025/26 | £42,362.11 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2194 | Cyngor Sir Ddinbych | Contract y Gerddi Coffa 2025/26 | £6,090.56 |
| 2195 | Cyngor Tref Treffynnon | Tri thocyn i ddigwyddiad elusennol | £90.00 |
| 2196 | Sandra Williams | Gwasanaeth Cyfieithu – mis Tachwedd 2025 (anfoneb hwyr) | £289.60 |
| 2197 | Sandra Williams | Gwasanaeth Cyfieithu – mis Ionawr a mis Chwefror 2026 | £213.91 |
| | **Cyfanswm Atodlen B** | | **£49,046.18** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen i'w thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

## 161. TALIADAU RHEOLAIDD (ATODLEN A) - 2026/27

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei hadroddiad hi a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn rhoi manylion yr atodlen taliadau rheolaidd i'w gwneud rhwng 1 Ebrill 2026 a 31 Mawrth 2027, i'r aelodau ei gymeradwyo ac awdurdodi'r gwariant.

| Cyflenwr a Disgrifiad | Amlder | Amcangyfrif y gost am y flwyddyn, heb gynnwys TAW |
|---|---|---|
| Cyflogau net staff Cyngor Tref y Rhyl | Misol | 114,000 |
| Didyniadau o gyflogau i Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi | Misol | 40,000 |
| Cyngor Sir y Fflint – Cronfa Bensiwn Clwyd | Misol | 54,000 |
| **Cyfanswm costau staff** | | **208,000** |
| Cyngor Sir Ddinbych – Ardrethi Annomestig (10 mis) | Misol | 9,000 |
| Ffonau symudol O2 a Tesco | Misol | 680 |
| Gwasanaethau ffonau a band eang BT | Misol | 4,920 |
| Siop Cyngor am Fudd-daliadau – Swyddog Apeliadau | Misol | 16,000 |
| Cyngor ar Bopeth – Gweithiwr Tlodi Tanwydd | Chwarterol | 9,000 |
| Cyngor Sir Ddinbych – benthyciad SC2 | Tri thaliad y flwyddyn | 96,111 |
| Cyngor Sir Ddinbych – partneriaeth camerâu teledu cylch cyfyng | Blynyddol | 17,000 |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad a'i lofnodi gan Glerc y Dref a dau gynghorydd.*

## 162. Y STRATEGAETH BUDDSODDI BLYNYDDOL 2026/27

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei hadroddiad hi a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) i'r aelodau gymeradwyo'r strategaeth, y disgwylid iddi gynhyrchu oddeutu £15,000 o log i'r Cyngor.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r strategaeth, gyda diolch i'r Swyddog Cyllid.*

## 163. SESIWN HOLI AC ATEB

Dim aelodau'r cyhoedd yn bresennol.

**164. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ar sail cyfrinachedd.*

**165. CYFETHOL CYNGHORYDD CYMUNED – WARD CEFNDY**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei hadroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) a'r ceisiadau a dderbyniwyd, i'r aelodau eu hystyried.

***PENDERFYNWYD*** *y byddai Clerc y Dref yn cysylltu â'r ymgeisydd llwyddiannus ac yn anfon y dogfennau angenrheidiol.*

**166. ADOLYGIAD RHEOLAETHAU MEWNOL BLYNYDDOL**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at adroddiad cyfrinachol yr Is-bwyllgor Asesu Risgiau (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) a gyflwynwyd yn unol â'r cyngor yn adroddiad interim yr Archwilydd Mewnol, i'r aelodau ei gymeradwyo.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r Adolygiad Rheolaethau Mewnol ar gyfer 2025/26.*

**167. ADOLYGIAD RISGIAU BLYNYDDOL 2025/26 A BLAEN GYNLLUN 2026/27**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at adroddiad cyfrinachol yr Is-bwyllgor Asesu Risgiau (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn amlinellu'r gwaith a wnaed ganddo yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a'r cynllun gwaith arfaethedig ar gyfer 2026/27, i'r aelodau ei gymeradwyo.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo Adolygiad Risgiau 2025/26 a Chynllun Gwaith 2026/27.*

**168. CYLLIDEB Y CYNGOR TREF AR GYFER 2026/27**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei hadroddiad cyfrinachol hi a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) i'r aelodau ei gymeradwyo.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r gyllideb ar gyfer 2026/27.*

**169. COFNODION CYFRINACHOL**

Cyflwynwyd y cofnodion a ganlyn (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) er gwybodaeth i'r aelodau ac i gymeradwyo'r argymhellion yn y cofnodion:

| | | |
|---|---|---|
| Y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol - | 14 Gorffennaf 2025 | - Cofnodion rhifau 1 – 6 |
| Yr Is-bwyllgor Asesu Risgiau - | 19 Ionawr 2026 | - Cofnodion rhifau 1 -16 |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r cofnodion.*

**170. ADLEOLI SWYDDFEYDD Y CYNGOR TREF – DIWEDDARIAD**

Cyflwynodd Clerc y Dref ddiweddariad cyfrinachol ar lafar ynghylch y cynnydd hyd yma o ran symud swyddfeydd y Cyngor Tref i Neuadd y Dref, er gwybodaeth i'r aelodau.

**171. EITEM YCHWANEGOL ER GWYBODAETH: BWRDD 'EIN RHYL'**

Hysbysodd Clerc y Dref y derbyniwyd gohebiaeth gan Gadeirydd y Bwrdd, Mr Craig Sparrow, yn cynghori am ailstrwythuro'r Bwrdd yn unol â chanllawiau Llywodraeth y Deyrnas Unedig i'w aelodaeth gynnwys mwy o gynrychiolwyr y gymuned anetholedig.

[Gadawodd y Cynghorydd Ms R. S. Roberts y cyfarfod am 18.25pm]

**172. DIWEDD Y CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod, cyhoeddodd y Maer ddiwedd y cyfarfod.

Maer: …….…………………..

Dyddiad: ……………….………..